



Bridio ar gyfer ymwrthedd i llyngyr mewn defaid mynydd

Mae ymchwil wedi nodi gwahaniaethau genetig rhwng defaid o ran cryfder yr ymwrthedd a ddatblygwyd ganddynt i barasitiaid llyngyr yn eu cyrff.

Os gellir adnabod y gwahaniaethau hyn trwy fesuriadau mewn defaid, gellir ymgorffori'r nodwedd hon mewn gwerthusiadau genetig a'i gwella trwy fridio detholus.

Deall y manteision

Mewn diadelloedd tir isel a gafodd eu dewis ar gyfer gwell ymwrthedd, mae gan yr ŵyn lai o wyau yn eu carthion a llai o llyngyr. Mae mamogiaid yn dangos llai o gynnydd yn y cyfrif wyau ysgarthol (FEC) tuag adeg wyna ac mae eu hŵyn yn elwa o ganlyniad am fod llai o wyau llyngyr yn cael eu gollwng ar y borfa.

Yn ystod yr hydref 2022, cafodd ŵyn mewn deg o ddiadelloedd mynydd â chofnodion perfformiad eu mesur, er mwyn asesu cyfrif wyau ysgarthol unigol (ar gyfer llyngyr y ceffylau (*Strongyles*) a Nematodirws) a'r ymateb o ran imiwnedd i her llyngyr a fesurir trwy samplau gwaed (IgA). Gwnaed y mesur gan gan ffermwyr a milfeddyg a chafodd y canlyniadau eu hasesu gan Techion (ar gyfer FEC) a Biobest (ar gyfer IgA).

Mae'n ymddangos fod y ddwy nodwedd hon yn dweud pethau gwahanol wrthym am allu'r defaid i ymdopi â her llyngyr a bydd llawer o ddiadelloedd yn dewis defaid sy'n rhagori ar gyfer y ddwy nodwedd.

Cafodd y mesuriadau eu cynnwys nawr yng Ngwerthusiad Bridio Defaid Mynydd Cenedlaethol Signet, sydd wedi cynhyrchu Gwerthoedd Bridio Tybiedig (EBVau) ar gyfer FEC S (*Strongyles*), FEC N (Nematodirws) ac IgA. Mae EBVau yn dynodi rhagoriaeth neu israddoldeb genetig anifail ar gyfer nodwedd benodol:

- Ar gyfer EBVau FEC S a FEC N, mae gwerthoedd negyddol yn cael eu ffafrio am eu bod yn dynodi anifeiliaid sy'n follwng llai o wyau ar y borfa.
- Ar gyfer EBVau IgA, mae ffigurau positif yn dangos bod defaid yn well yn wynebu her o ran imiwnedd i heintiad.

Wrth ddefnyddio EBVau ymwrthedd i llyngyr mae'n bwysig cofio:

- Ni ddylid ystyried y nodweddion hyn ar eu pennau eu hunain oherwydd y gost fiolegol i anifeiliaid sy'n ymateb o ran imiwnedd, a all arwain at ddirywiad yn y perfformiad cyffredinol. Dewiswch ar gyfer ymwrthedd ar y cyd â nodweddion perfformiad eraill, megis cyfradd twf, ansawdd carcass a rhinweddau mamol.
- Fe welwn y manteision mwyaf mewn diadelloedd caeedig lle cedwir anifeiliaid amnewid. Bydd mamogiaid sy'n cael hyrddod â'r gallu i wrthsefyll llyngyr yn well yn halogi llai ar y borfa, a bydd hynny'n fanteisiol i'w hŵyn. Felly, cynghorir bridwyr i fridio eu hyrddod eu hunain sy'n cael eu profi neu i brynu hyrddod gan fridwyr sydd hefyd yn dewis ar gyfer ymwrthedd.



Cyngor i fridwyr hyrddod

Cynghorir diadelloedd sy'n ystyried cymryd samplau o'u hanifeiliaid i gymryd sampl grŵp a sicrhau bod yr ŵyn yn profi her. Dim ond pan fydd samplau grŵp yn dangos mwy na 300 wy / gram y dylid cymryd samplau.

Er mwyn gwneud yn siŵr fod mesuriadau FEC ystyrllon yn cael eu casglu:

- Dylai ŵyn fod wedi pori porfeydd 'brwnt' am o leiaf bedair wythnos
- Ni ddylai'r ŵyn fod wedi cael triniaeth am lyngyr yn ystod y 4 wythnos flaenorol o leiaf a pheidiwch â chymryd samplau gan ŵyn sy'n cael drenshis 'hir-weithredol' neu 'barhaus'
- Gwnewch yn siŵr bod ŵyn wedi bod o dan yr un reolaeth drwy gydol eu hoes
- Ni ddylid anfon samplau nes bod ŵyn dros 18 wythnos oed.

O sawl oen ddylwn i gymryd samplau?

- Bydd y gwerthoedd bridio mwyaf cywir i'w cael mewn diadelloedd sy'n cymryd samplau gan lawer o ŵyn
- Dylai diadelloedd sy'n samplu is-set o'u hŵyn ystyried samplu un rhyw a dim llai na 30 o ŵyn. Yn ddefnyddio, dylai o leiaf 5 oen o bob hwrdd gael eu samplu
- Samplwch drawstoriad o'r ddiadell, ac nid yr ŵyn gorau yn unig.

Ble alla i ddod o hyd i hyrddod ag ymwrthedd genedig?

Mae'r holl r werthoedd bridio a gafodd eu cyhoeddi i'w gweld ar wefan Signet.

Pwyntiau cyffredinol wrth chwilio am hwrdd gyda'r nodweddion hyn:

- Chwiliwch am ddiadell sydd wrthi'n cofnodi FEC ac IgA
- Defnyddiwch y Gwerthoedd Cywirdeb a gyhoeddwyd yn ymyl pob EBV i ganfod faint o gofnodi sy'n digwydd ar gyfer yr anifail a'r ddiadell
- O ran EBVau FEC, cofiwch bod gwerth negyddol (llai o wyau) yn nodwedd bositif. O ran EBVau IgA, mae gwerthoedd positif yn fuddiol
- Defnyddiwch 'EBV Search' ar wefan Signet, i gynhyrchu rhestrau sy'n dangos y defaid hynny sydd â'r gwerthoedd bridio gorau ar gyfer FEC ac IgA.